# Gostyngiad Mewn Galwadau Tân Diangen – Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3570A2023

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol ag adrannau 17 a 41 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti o ran yr adroddiad hwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd yn ei ddull gweithredu ar gyfer reoli galwadau tân diangen. Bydd gwneud gwell defnydd o ddata a dysgu o leoedd eraill yn nodi cyfleoedd i reoli perfformiad a risgiau yn well.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae gwasanaethau tân ac achub yn wynebu'r amgylchedd ariannol a gweithredol mwyaf heriol mewn cenhedlaeth 6

Beth yw galwadau tân diangen a pham y maent yn bwysig? 8

Rheoli galwadau diangen yn ATADC 15

Atodiadau

Atodiad 1 – Dull gweithredu 26

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Fe wnaethom adolygu dull gweithredu'r Awdurdod o ran lleihau galwadau tân diangen mewn adeiladau annomestig. Roedd ein harchwiliad yn cynnwys adolygu polisi'r Awdurdod, sut y cafodd ei ddatblygu a sut y mae'n cael ei roi ar waith, sut mae galwadau diangen yn cael eu monitro, a sut y caiff perfformiad ei reoli a'i werthuso.

2 Fe archwiliom ni alwadau diangen oherwydd y niferoedd sylweddol yr ymatebwyd iddynt gan Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod ganddynt effaith weithredol, ariannol, ac amgylcheddol sylweddol. Mae hwn hefyd yn faes allweddol ar gyfer gwelliant o fewn Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub o 2016[1] a baratowyd gan Lywodraeth Cymru.

3 Fe wnaethom ni gynnal yr adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023.

### Yr hyn a ganfuwyd gennym

4 Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: **A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i leihau'r achosion a'r ymatebion i alwadau tân annomestig diangen?**

5 Ar y cyfan, canfuom: **Fod yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd yn ei ddull gweithredu o ran rheoli galwadau tân diangen. Bydd gwneud gwell defnydd o ddata a dysgu o leoedd eraill yn nodi cyfleoedd i reoli perfformiad a risgiau yn well**. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- er bod system rheoli gwybodaeth yr Awdurdod yn darparu sail gadarn ar gyfer ei ddull gweithredu, mae angen mwy o ddefnydd o'r data er mwyn deall effeithiau a manteision posibl yn llawn. Mae bylchau data yn anfanteisiol.
- mae gan yr Awdurdod ddull priodol, sy'n canolbwyntio'n lleol ar gyfer galwadau diangen sydd wedi'i wreiddio yng nghydbwysedd risgiau lleol. Fodd bynnag, mae'n brin o gyfranogaeth rhanddeiliaid ehangach, yn ogystal â thargedau neu ddangosyddion ffurfiol sy'n helpu i asesu cynnydd.
- gan nad oes gan yr Awdurdod gyfres gynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad mae'n anodd gwerthuso a monitro pob agwedd ar berfformiad. Er bod ffigurau cyffredinol yn cael eu hadrodd yn rheolaidd, mae diffyg manylion mewn meysydd allweddol.

[1] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub o 2016, Tachwedd 2015

- Mae nifer yr achosion o alwadau diangen wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er bod gostyngiad wedi bod yn nifer y galwadau o leoliadau iechyd, mae twf mewn larymau awtomatig eraill wedi disodli hyn.

## Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a ganfuwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Dulliau gweithredu**<br>A1 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn archwilio ac yn asesu dulliau eraill a fabwysiadwyd mewn mannau eraill i nodi cyfleoedd i gryfhau ei reolaeth dros berfformiad wrth leihau achosion o alwadau diangen. Dylai hyn gael ei lywio a chynnwys defnyddio data a gedwir gan yr Awdurdod.<br>A2 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn gwella sut mae'n cyfathrebu ac yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod partneriaid yn alinio eu gwaith i gefnogi'r gwaith o leihau galwadau diangen.<br>A3 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn hwyluso rhannu a thrafod arferion da yn fewnol drwy'r cynllun Hyrwyddwr Galwadau Tân Diangen. |
| **Data**<br>A4 Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn diwygio ei system godio ar gyfer cofnodi galwadau diangen i leihau'r nifer o achosion 'anhysbys' i helpu i dargedu gwaith atal. |
| **Adrodd**<br>A5 Rydym yn argymell bod adrodd perfformiad ar alwadau diangen yn cael ei gryfhau drwy'r canlynol:<br>• cyfochri monitro ac adrodd ar berfformiad â'r dull polisi pedwar cam; a<br>• darparu sylwadau manwl ar y dulliau a fabwysiadwyd a thueddiadau manwl dros amser i helpu'r aelodau i graffu ar weithgarwch. |

# Adroddiad manwl

## Mae gwasanaethau tân ac achub yn wynebu'r amgylchedd ariannol a gweithredol mwyaf heriol mewn cenhedlaeth

### Disgwyliadau’r fframwaith cenedlaethol

6 Mae Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân Llywodraeth Cymru yn nodi bod lleihau galwadau diangen yn arbediad effeithlonrwydd allweddol sydd ar gael i Awdurdodau Tân ac Achub[2]. Mae'n nodi bod ymateb i alwadau diangen yn golygu costau sylweddol, yn ariannol ac o ran cyfleoedd, i’r Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) a deiliaid adeiladu, gan gynnig dim budd o gwbl. Mae hyn yn cael effaith enfawr gan fod mwy o alwadau diangen na thanau go iawn. Ar hyn o bryd, mae 46% o gyfanswm y digwyddiadau yr ymatebwyd iddynt gan yr Awdurdod yn alwadau diangen, sy'n amlygu’r baich sylweddol y maent yn ei roi ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ATAau: 'Nodi prif ffynonellau galwadau diangen a chymryd pob cam rhesymol ac ymarferol i leihau achosion o’r fath.'

7 Wrth lunio eu dull gweithredu, rhaid i ATAau hefyd ddangos yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2016. Mae'n ofynnol i ATAau ddangos eu bod ag ymagwedd hirdymor at wella sy'n canolbwyntio ar atal, cynnwys pobl, ac integreiddio a gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

8 Felly, y disgwyl yw gweld gostyngiad yn yr ymatebion i alwadau diangen, er mwyn rhyddhau adnoddau a chapasiti. Byddai hyn hefyd yn rhoi ATAau mewn sefyllfa gryfach i wireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, a nodwyd mewn adroddiadau diweddar.

### Tyfu swyddogaeth y diffoddwr tân

9 Mae angen lleihau achosion o alwadau diangen er mwyn darparu'r capasiti ychwanegol sydd ei angen i fodloni disgwyliadau polisi Llywodraeth Cymru.

10 Ers cyhoeddi'r Fframwaith Cenedlaethol yn 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu cyfeiriad polisi ehangach ar gyfer ATAau. Mae hyn yn golygu ehangu swyddogaeth diffoddwyr tân i gefnogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol, fel ymateb i gwympiadau heb anaf. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Cabinet yn 2020.

[2] Llywodraeth Cymru, Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub o 2016, Tachwedd 2015

11 Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hasesiad ynghylch a fyddai modd ehangu swyddogaeth diffoddwyr tân heb achosi anfantais i'r gwasanaeth tân ac achub craidd. Hyd yn oed heb ddarparu swyddogaeth ehangach, daeth yr adolygiad i'r casgliad bod angen 'adolygiad sylfaenol o arferion gwaith gorsaf i sicrhau bod gweithgaredd wedi'i drefnu'n briodol i sicrhau'r allbwn mwyaf'. Canfu dadansoddiad nad oedd capasiti heb ei ddyrannu yn ystod sifft dydd criwiau llawn amser, a fyddai'n cyd-daro â'r oriau brig galw Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) rhwng 7am a hanner dydd[3].

12 Nodwyd hefyd diffyg amser hyfforddi digonol gan Lywodraeth Cymru ac arweiniodd at ail adolygiad thematig yn canolbwyntio ar hyfforddiant gweithredol[4]. Daeth i'r casgliad nad oedd digon o amser hyfforddi ar gael, yn enwedig i ddiffoddwyr tân o dan y system ar ddyletswydd yn ôl galw (RDS). Argymhellodd yr adroddiad y dylai ATAau 'gynnal dadansoddiad gwirfoddol o faint o amser sydd ei angen i hyfforddi diffoddwyr tân'.

13 O ganlyniad, byddai gostyngiad mewn ymatebion galwadau diangen yn cefnogi'r gwaith o greu capasiti ychwanegol sydd ei angen i helpu i ehangu swyddogaeth y diffoddwr tân. Mae hyn ochr yn ochr â gofynion eraill, megis arweinyddiaeth gan uwch swyddogion ac aelodau, cydweithio effeithiol, dadansoddi data cadarn, a chraffu effeithiol.

## Gostyngiadau mewn adnoddau a gallu

14 Bu'n rhaid i ATAau gyflawni o fewn cyllidebau sydd wedi'u lleihau'n sylweddol yn ystod blynyddoedd o gyni ac, fel pob corff cyhoeddus, mae'n rhaid iddynt barhau i addasu i ymateb i'r pwysau ariannol presennol. O ganlyniad, mae'r Awdurdodau wedi gorfod cynnal eu gwasanaethau gyda llai o adnoddau ac wedi canolbwyntio ers tro ar ail-gydbwyso eu pwyslais o ymateb i ddigwyddiadau, i atal tanau a gwella diogelwch.

15 Mewn termau real, gwelodd yr Awdurdod ostyngiad o 16.8% (£15 miliwn) mewn gwariant refeniw rhwng 2009-10 a 2021-22[5]. Dros yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 26.9%[6] yn nifer y galwadau a dderbyniodd yr Awdurdod a gostyngiad o 22.6% [7] yn nifer y digwyddiadau yr ymatebwyd iddynt. Mae nifer y diffoddwyr tân sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod hefyd wedi gostwng rhwng 2009-10 a 2021-22 **(Arddangosyn 2)**:

[3] Llywodraeth Cymru, Ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru, Tachwedd 2021

[4] Llywodraeth Cymru, Hyfforddiant Gweithredol y Gwasanaethau Tan ac Achub: adolygiad thematig, Hydref 2022

[5] StatsCymru, Refeniw alldro fesul awdurdod

[6] StatsCymru, Galwadau yr ymdriniwyd â nhw gan wylfa ystafell reoli tân gyfamser ag amser llawn (FTE) fesul math yr alwad a blwyddyn ariannol

[7] StatsCymru, Tanau, Digwyddiadau Gwasanaethau Arbennig a galwadau diangen yr ymatebodd y Gwasanaethau Tân ac Achub iddynt yng Nghymru

**Arddangosyn 2: nifer personél ATADC fesul math o gyflogaeth, 2009-10 i 2021-22**

| Swyddogaeth | 2009-10 | 2021-22 | Newid | |
|---|---|---|---|---|
| Staff mewn lifrai llawn amser | 918 | 806 | -112 | -12% |
| Staff ar ddyletswydd yn ôl galw | 692 | 528 | -164 | -24% |
| Staff ystafell reoli tân | 56 | 41 | -15 | -27% |
| Staff nad ydynt yn weithredol | 307 | 325 | 18 | +6% |
| Pob aelod o staff | 1,973 | 1,700 | -273 | -14% |

Ffynhonnell: StatsCymru

# Beth yw galwadau tân diangen a pham y maent yn bwysig?


## Diffiniad a mathau

16 O fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, mae tri chategori ar gyfer mathau o alwadau diangen:

- **Maleisus** – galwad a wnaed gyda'r bwriad o gael ymateb i ddigwyddiad yn ymwneud â thân nad yw'n bodoli;
- **Bwriad da** – galwad a wnaed oherwydd credid yn ddidwyll y byddai angen ymateb; ac
- **Oherwydd y cyfarpar** – galwad a ddechreuwyd gan larwm tân neu offer diffodd tân (gan gynnwys yn ddamweiniol).

17 **Mae arddangosyn 3** yn dangos, yn genedlaethol, fod galwadau diangen 'oherwydd y cyfarpar' yn cyfrif am ychydig o dan 60% o gyfanswm galwadau diangen.

**Arddangosyn 3: cyfran o gyfanswm y galwadau diangen yng Nghymru fesul math, 2021-22**




Ffynhonnell: StatsCymru

18 Mae'r rhain fel arfer yn cael eu hachosi gan systemau Larwm Tân Awtomatig (LTAau), sef rhwydweithiau o synwyryddion mewn adeiladau sydd wedi eu cysylltu â system larwm. Yna mae'r larwm wedi'i gysylltu â Chanolfannau Derbyn Larymau (ARCs). Oherwydd nad oes angen rheoli ar y safle o ran technoleg, gellir lleoli ARCs unrhyw le yn y byd. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ARCs gofrestru gyda phob ATA y maent yn gweithredu gyda nhw. **Mae Arddangosyn 4** yn nodi proses yr LTA pan gaiff ei sbarduno.

**Arddangosyn 4: Proses Larwm Tân Awtomatig**




Ffynhonnell: Archwilio Cymru

8 Pan fo ATA yn cael galwad diangen, cyfeirir ati fel arfer fel Signalau Tân Diangen (UwFS). Gan mai UwFS yw'r gyfran fwyaf o alwadau diangen, nhw sy’n cael y sylw mwyaf o ran gweithgarwch lleihau ledled y DU[8]. O ganlyniad, mae pwyslais dull yr Awdurdod a'r archwiliad hwn wedi bod ar leihau UwFS, gan hefyd ymdrin â mathau eraill o alwadau diangen.

## Mae galwadau diangen yn effeithio ar gydnerthedd gwasanaethau Tân ac Achub

9 Fel gydag unrhyw ymateb a wnaed gan yr Awdurdod i unrhyw ddigwyddiad, ceir effeithiau ariannol, gweithredol, amgylcheddol, a diogelwch wrth ymateb i alwadau diangen.

10 Wrth eu hystyried gyda'i gilydd, mae'r effeithiau a grëir gan yr ymateb i alwadau diangen yn sylweddol. O ganlyniad, bydd unrhyw welliant mewn perfformiad yn helpu'r Awdurdod i reoli’r pwysau ar ei adnoddau yn well a chynyddu'r capasiti i ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol a thasgau blaenoriaeth eraill.

### Ariannol

11 Mae cyfanswm effeithiau ariannol ymateb i alwadau diangen yn anodd ei feintioli yn union. Byddai’r weithred o anfon peiriant yr un fath wrth ymateb i alwad ddiangen ag y byddai mewn digwyddiad gwirioneddol gyda chriwiau yn cael eu hanfon gyda’r disgwyliad y byddant yn gorfod ymdrin â thân go iawn.

12 Mae llythyrau'r awdurdod yn amcangyfrif bod y gost o anfon peiriant tua £400. Mae'r costau'n amrywio fesul ATA yn seiliedig ar ffactorau amrywiol, megis daearyddiaeth, seilwaith ffyrdd, a gwledigrwydd, ond mae amcangyfrif yr Awdurdod yn debyg i ATAau eraill y DU, sef tua £350 i £400 yr awr[9]. Yn seiliedig ar y gost amcangyfrifedig o £400, fe wnaethom gyfrifo bod cost ariannol galwadau diangen yn 2021-22 yn £3.21 miliwn o leiaf, dyna - 4.1% o'r gwariant net a gyllidwyd. Bydd hyn yn danamcangyfrifiad, gan nad ydym yn gallu cyfrifo'r gost yn seiliedig ar hyd yr ymatebion, milltiroedd, neu gostau amrywiol eraill.

13 Mae ymatebion ychwanegol i alwadau tân diangen yn creu galw ychwanegol, sy'n effeithio ar adnoddau a chapasiti. Er bod diffoddwyr tân llawn amser sy'n cael eu defnyddio mewn ardaloedd mwy trefol yn ymdrin â mwy o achosion o alwadau diangen, mae’r ffaith eu bod wedi’u hanfon yn cael sgil-effaith ar ddiffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl galw yr Awdurdod, e.e. os ydyn nhw'n cael eu galw fel staff tân llanw. Mae tua 40% o ddiffoddwyr gweithredol yn cael eu cyflogi o dan y system ar ddyletswydd yn ôl galw (RDS)[10].

[8] Er enghraifft, gweler canllawiau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân

[9] Er enghraifft Tâl safonol GTA Dyfnaint a Gwlad yr Haf o £364.27 neu Amcangyfrif GTA Swydd Buckingham o £305 + TAW.

[10] StatsCymru, Personél (nifer yr unigolion) yn ôl math o gyflogaeth a blwyddyn ariannol

14 I wrthsefyll yr effeithiau ariannol, mae rhai ATAau yn Lloegr wedi rhagnodi taliadau am safleoedd sy'n creu sawl galwad diangen. Er enghraifft, mae ATA Cleveland yn codi tâl o £345 (ac eithrio TAW) ar safle ar ôl y bumed alwad. Yn yr un modd, mae GTA Humberside[11] yn codi o leiaf £365.75 o'r bedwaredd alwad ddiangen ymlaen[12].

## Gweithredol

15 Bydd unrhyw ymateb gan yr ATA yn arwain at amharu ar weithgareddau arfaethedig yr orsaf sy'n ymateb. Gall hyn ddargyfeirio pobl o hyfforddiant, gwaith atal, neu waith ymgyfarwyddo ag eiddo, sydd i gyd yn dasgau hanfodol er mwyn i griw gynnal gallu gweithredol. Mae tarfu ar hyfforddiant yn arbennig o gostus, fel yr amlygwyd gan adroddiad[13] diweddaraf Llywodraeth Cymru, sy'n nodi risg na fydd cymwyseddau staff yn cael eu cynnal pan fo criwiau'n ymateb yn rheolaidd i alwadau diangen.

16 Gall polisi'r Awdurdod o ymateb i bob galwad (**paragraff 44** isod) arwain at amharu'n sylweddol ar waith ataliol yn y gymuned ac ar hyfforddiant arfaethedig. Mae hyn yn wendid sylweddol yn y dull presennol, gan ei fod yn defnyddio adnoddau hanfodol mewn modd anghynhyrchiol.

17 Yn ystod cyfweliadau, roedd swyddogion yn cyfiawnhau defnyddio adnoddau oherwydd manteision mynd i safleoedd. Cyfeiriodd swyddogion at ymgyfarwyddo ag adeiladau fel y brif fantais, yn enwedig adeiladau sydd y tu allan i weithdrefnau asesu risg arferol. Mae hon yn fantais ddadleuol gan nad yw unrhyw beth a ddysgir ar alwadau diangen yn cael ei gofnodi'n ffurfiol, sy'n golygu bod unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei chadw gan y criw sy'n ymateb yn unig. Nid yw mynd i adeilad mewn ymateb i alwad ddiangen ychwaith yn ddull priodol ar gyfer llywio asesiadau risg o adeiladau risg uwch, a ddylai eisoes gael eu cynnwys yn ddigonol gan y broses asesu risg bresennol.

18 Canfu'r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub ac Arolygydd Cymru hefyd fod yr effaith weithredol yn sylweddol ar ddiffoddwyr tân o fewn y system RDS, sydd fel arfer yn cael dim ond dwy neu dair awr o hyfforddiant yr wythnos[14], y gellir eu colli'n llwyr pe bai angen ymateb i alwadau diangen yn ystod oriau hyfforddi.

19 Yn ogystal, gan fod y system RDS yn dibynnu ar ewyllys da cyflogwyr i ryddhau staff i ateb galwad yn ystod eu horiau gwaith, gall cynyddu ymatebion i alwadau diangen wneud i fusnesau ailfeddwl o ran cefnogi eu staff i ymgymryd â swyddogaeth RDS. Gall hyn hefyd effeithio'n negyddol ar gadw staff.

[11] GTA Cleveland, Larymau tân

[12] GTA Humberside, Taliadau galwadau 2022-23

[13] Llywodraeth Cymru, Hyfforddiant gweithredol y gwasanaethau tân ac achub: adolygiad thematig, Hydref 2022

[14] Llywodraeth Cymru, Hyfforddiant gweithredol y gwasanaethau tân ac achub: adolygiad thematig

20 Er mwyn gwrthsefyll yr effaith weithredol, mae rhai ATAau ar draws Prydain Fawr wedi mabwysiadu polisïau i atal ymateb i LTAau. Er enghraifft, o 1 Gorffennaf 2023, ni fydd Gwasanaeth Tân ac Achub (GTA) yr Alban yn ymateb i LTAau mewn adeiladau annomestig oni bai bod galwad 999 yn cael ei wneud neu fod gan yr adeilad fannau cysgu, megis ysbytai, cartrefi gofal, gwestai, neu anheddau domestig. Cafodd y penderfyniad hwn ei lywio gan ymgynghoriad cyhoeddus[15] a gynhaliwyd yn 2021.

## Amgylcheddol

21 Fel y nodwyd yn ein hadroddiad Lleihau Allyriadau Carbon[16] yn 2021-22, ceir effeithiau amgylcheddol sylweddol wrth ymateb i alwadau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio tanwydd ar gyfer ymateb, yn ogystal ag effaith amgylcheddol debygol yn sgil rhai diffoddwyr tân ar ddyletswydd yn ôl galw yn teithio i'w gorsaf i griwio peiriannau. O ganlyniad, ni fydd ymateb i alwadau diangen yn helpu'r Awdurdod i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o fod yn sero net erbyn 2030 a bydd yn heriol heb newid mewn ymddygiad.

22 Mae Cynllun Lleihau Carbon yr Awdurdod 2020-23[17] yn nodi effaith carbon enfawr wrth ddefnyddio cerbydau yng nghyd-destun llinell sylfaen 2018-19. Cafodd 2,655 o dunelli o $CO^2$ eu gollwng gan gerbydau fflyd yn 2018-19 - 27% o gyfanswm yr allyriadau. Fodd bynnag, ni allodd yr Awdurdod feintioli effaith benodol galwadau diangen ar y cyfanswm hwn gan nad oedd yn gallu darparu'r allyriadau amcangyfrifedig fesul ymateb neu beiriant.

23 Mae'r cynllun yn anelu at ostyngiad o 50% mewn allyriadau erbyn 2030 ac yn nodi gostyngiadau posibl mewn teithiau fel ateb i leihau allyriadau fflyd. Fodd bynnag, nid yw'n ystyried effaith benodol ymatebion galwadau diangen.

## Diogelwch

24 Mae lleihau galwadau diangen yn hanfodol i leihau risgiau diogelwch. Mae cyffredinrwydd achosion o alwadau diangen hefyd yn cael effeithiau sylweddol o bosibl ar risgiau diogelwch cymunedau, megis risg ar y ffyrdd a hunanfodlonrwydd.

25 Mae risgiau diogelwch ar y ffyrdd yn bresennol pryd bynnag y bydd y gwasanaethau brys yn ymateb i ddigwyddiad. Gall gyrru ar gyflymder neu o dan amodau golau glas, greu risgiau sylweddol i griwiau a defnyddwyr eraill y ffordd. Mae'r risg hon hefyd yn bresennol ar gyflymder cyffredin y ffordd, oherwydd maint a phwysau sylweddol peiriannau tân.

26 Gall nifer uchel o alwadau diangen hefyd arwain at hunanfodlonrwydd ymhlith deiliaid adeiladu. Gall peidio â mynd i'r afael â galwadau diangen arwain at ddiffyg

[15] GTA yr Alban, Ymgynghoriad cyhoeddus ar signalau galwadau tân diangen, Rhagfyr 2021

[16] Archwilio Cymru, Lleihau Allyriadau Carbon – ATADC, Chwefror 2022

[17] GTA De Cymru, Cynllun Lleihau Carbon 2020-23

ymateb yn ystod digwyddiad go iawn, gan roi'r deiliaid a'r criw ymateb mewn perygl ychwanegol. Mae lleihau galwadau diangen felly, yn helpu i leihau'r risgiau diogelwch i griwiau a chymunedau'r Awdurdod.

## Yr hyn y mae eraill yn ei wneud

27 Mae ATAau ar draws y DU wedi dyfeisio atebion gwahanol i fynd i'r afael â'r nifer uchel o alwadau diangen. Maent yn faich sylweddol ar y gorsafoedd lleol ac yn cyfyngu ar yr amser y gellir ei dreulio ar faterion eraill. Canfu ymchwil y Swyddfa Gartref[18] fod 63,000 o oriau wedi'u gwastraffu yn Lloegr yn ystod 2017-18 oherwydd ymatebion i alwadau diangen.

28 O ganlyniad, mae gwasanaethau yn Lloegr wedi datblygu ystod o ddulliau i helpu i leihau nifer y galwadau diangen yr ymatebwyd iddynt, sy'n amrywio yn eu defnydd **(Arddangosyn 5)**.

**Arddangosyn 5: enghreifftiau o ddulliau a fabwysiadwyd gan ATAau Lloegr yn 2018**

| Dull gweithredu | Disgrifiad | Cyfran o ATAau Lloegr a fabwysiadodd y dull gweithredu yn 2018 |
|---|---|---|
| Herio galwad | Pan fo staff rheoli tân yn gofyn cwestiynau i'r rhai sy'n gwneud galwad i gadarnhau a yw tân yn un iawn er mwyn osgoi ymateb cyntaf. | 93% |
| Mentrau addysg a gwybodaeth | Rhoddir gwybodaeth neu ddeunyddiau i ddeiliaid adeiladau ynghylch yr angen i leihau galwadau diangen. | 93% |
| Dim angen cadarnhad | Mae ymateb arferol yn cael ei anfon heb gadarnhad. | 76% |

[18] Y Swyddfa Gartref, Tueddiadau galwadau tân diangen a pholisïau galwadau tân diangen, Tachwedd 2022

| Dull gweithredu | Disgrifiad | Cyfran o ATAau Lloegr a fabwysiadodd y dull gweithredu yn 2018 |
|---|---|---|
| Ymatebion wedi'u haddasu | Ymatebir ar unwaith ond wedi ei leihau o'r Presenoldeb Rhagbenodedig (PDA), e.e. anfonir un peiriant i archwilio’r sefyllfa yn hytrach na thri. | 74% |
| Angen cadarnhad (neu 'gnoc ddwbl') | Dim ond os ceir galwad i gadarnhau bod tân y mae ymateb yn cael ei weithredu, neu os caiff sawl larwm ei sbarduno. | 60% |
| Camau gorfodi | Cymerir camau gorfodi cyfreithiol yn erbyn lleoliadau sy'n sbarduno galwadau diangen yn aml, megis archwiliad diogelwch tân neu ddirwy. | 33% |
| Dirwyon | Codir tâl ariannol ar leoliadau sy’n gyfrifol am alwadau diangen rheolaidd. | 24% |
| Dim presenoldeb | Ar ôl cael rhybudd, bydd y safle sy’n sbarduno galwadau diangen dro ar ôl tro yn cael gwybod na fydd presenoldeb. | 13% |

Ffynhonnell: Ymchwil y Swyddfa Gartref

29 Mae Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân wedi cyhoeddi pecyn cymorth i gefnogi ATAau gyda'u rheolaeth o alwadau diangen[19] a'r opsiynau posibl i'w hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dim ymateb i LTAau yn ystod oriau'r dydd oni bai bod lefel uwch o risg (e.e. y risg bod rhywun yn cysgu yn yr adeilad neu adeiladau risg uchel fel ysbytai);
- codi tâl ar ddeiliaid adeilad sy'n achosi UwFS dro ar ôl tro;

[19] Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, Pecyn gwybodaeth signalau tân diangen

- ei gwneud yn ofynnol i leoliad gofrestru eu LTAau i alluogi monitro gwell i helpu pobl sy'n ymdrin â galwadau i wneud penderfyniadau ar sail wybodaeth well;
- sefydlu trothwyon ar gyfer ymateb wedi'i addasu yn seiliedig ar nifer y synwyryddion mewn adeilad (e.e. byddai adeilad gyda 500 o synwyryddion yn cael ymateb llawn gyda deg UwFS, ond ni fyddai adeilad gyda 100 yn cael ymateb llawn);
- blaenoriaethu'r gwaith o addysgu a hysbysu pobl o'u cyfrifoldebau a chael swyddogion ymroddedig i helpu hwyluso newid mewn adeiladau/sefydliadau sydd â hanes o nifer uchel o alwadau diangen; a
- ymgysylltu ag ARCs i wella proses ymdrin â galwadau ac annog cyrff i gynnal gwiriadau gweledol i gadarnhau bod tân.

Mae'r pecyn gwybodaeth a'r ymchwil yn dangos ehangder y dulliau sydd ar gael i ATA eu defnyddio sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol a'u parodrwydd i dderbyn risg.

# Rheoli galwadau diangen yn ATADC

## Polisi presennol

30 Ers blynyddoedd lawer, mae'r Awdurdod wedi ymateb i'r rhan fwyaf o alwadau LTA. Wrth dderbyn galwad, mae staff rheoli yn cael eu hannog i'w hidlo drwy herio'r galwr neu ofyn am gadarnhad o'r safle ynghylch natur y digwyddiad ac a oes tân gwirioneddol. Gall hyn wedyn alluogi proses o naill ai dwysáu, adalw, neu atal presenoldeb yn llwyr.

31 Ar gyfer galwadau a dderbynnir rhwng 8am a 6pm, dim ond un peiriant sy'n cael ei ddefnyddio ar gyflymder rheolaidd ar y ffordd yn hytrach na'r PDA rheolaidd[20]. Mae hyn yn galluogi'r criw i gadarnhau a oes tân, er mwyn dwysáu'r ymateb, tynnu'n ôl yn ystod y daith, neu gofnodi'r alwad fel UwFS.

32 Mae gan yr Awdurdod weithgor gyda chyfrifoldeb dros leihau UwFS ers 2015, sy'n cynnwys swyddog arweiniol ar gyfer lleihau galwadau diangen, swyddogion Diogelwch Tân i Fusnesau (BFS), staff data ac eraill. Mae'n cyfarfod bob chwech i wyth wythnos.

33 Mabwysiadwyd polisi newydd ar gyfer targedu gostyngiadau UwFS o adeiladau cyfaint uchel yn 2020. Creodd hyn system bedwar cam ar gyfer monitro, datblygu data a gofnodwyd gan griwiau yn bresennol. Mae pob cam yn seiliedig ar faint o alwadau y mae safle wedi'u hanfon yn y 12 mis blaenorol **(Arddangosyn 6)**. Mae gweithgor UwFS yn cefnogi ymyriadau i leihau nifer y galwadau gan y rhai sy'n gyfrifol dro ar ôl tro.

[20] Mae eithriadau i'r polisi, fel eiddo domestig, a'r gallu i esgyn i ymateb golau glas yn seiliedig ar asesiad Comander y Digwyddiad.

34 Pan gofnodir UwFS, mae'n cael ei nodi yn y system cofnodi digwyddiadau (IRS) a'r system wybodaeth rheoli mewnol, BMIS. Mae pob galwad wedi ei chofnodi o dan god safle unigryw ac fe ychwanegir manylion, fel lleoliad ac achos penodol.

35 Wrth i UwFSs gael eu cofnodi yn erbyn safle penodol, gall yr Awdurdod lunio adroddiad sy'n dangos cyfanswm y galwadau diangen mewn cyfnod treigl o 12 mis. Yna mae polisi'r Awdurdod yn dosbarthu pob lleoliad yn un o bedwar cam ac yn disgrifio'r ymatebion addas gan naill ai'r digwyddiad lleol neu gomander yr orsaf, neu'n ganolog gan swyddogion Diogelwch Tân i Fusnesau (BFS) **(Arddangosyn 6)** .

**Arddangosyn 6: Polisi pedwar cam ATADC ar gyfer lleihau UwFS**

| Cam | Nifer y galwadau yn y 12 mis diwethaf | Camau gweithredu lleol | Camau gweithredu'r tîm Diogelwch i Fusnesau | Camau gweithredu'r gweithgor UwFS |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | • Ymchwilio i'r achos(ion)<br>• Rhoi taflen leihau i berson cyfrifol yr adeilad (PC) | • Dim | • Dim |
| 2 | 5 | • Cwrdd â'r PC i drafod achosion a chamau adfer posibl<br>• Rhoi pecyn lleihau i'r PC<br>• Ymgynghori â'r tîm Diogelwch Tân i Fusnesau | • Cefnogi camau gweithredu comander yr orsaf | • Dim |

| Cam | Nifer y galwadau yn y 12 mis diwethaf | Camau gweithredu lleol | Camau gweithredu'r tîm Diogelwch i Fusnesau | Camau gweithredu'r gweithgor UwFS |
|---|---|---|---|---|
| 3 | 10 | • Cwrdd â'r PC i drafod achosion a chamau adfer posibl<br>• Cysylltu â'r tîm Diogelwch Tân i Fusnesau perthnasol<br>• Ystyried atgyfeirio i'r gweithgor | • Cefnogi camau gweithredu comander yr orsaf<br>• Cwblhau nodyn ar gyfer ffeil Diogelwch Tân i Fusnesau'r safle<br>• Ystyried anfon llythyr at y PC ac archwiliad diogelwch tân | • Adolygu argymhellion lleol<br>• Llywio trafodaeth gyda Phenaethiaid y Gwasanaeth |
| 4 | 20 | • Cwrdd â'r PC i drafod achosion a chamau adfer posibl<br>• Cysylltu â'r tîm Diogelwch Tân i Fusnesau perthnasol<br>• Atgyfeirio i'r gweithgor | • Cefnogi camau gweithredu comander yr orsaf<br>• Cwblhau nodyn ar gyfer ffeil Diogelwch Tân i Fusnesau'r safle<br>• Ystyried anfon llythyr at y PC ac archwiliad diogelwch tân | • Adolygu argymhellion lleol<br>• Llywio trafodaeth gyda Phenaethiaid y Gwasanaeth |

Ffynhonnell: Polisi Gweithredu ATADC 09.008

36 Yn y polisi hwn, mae camau gweithredu wedi'u datganoli i'r lefel leol, a all weithredu fel cryfder a gwendid. Er ei fod yn galluogi ystyried galwadau diangen mewn cyd-destun a'r proffil risg lleol, mae hefyd yn cynyddu'r posibilrwydd y caiff gwahanol ddulliau gweithredu eu mabwysiadau. Gall hyn fod yn broblem i fusnesau neu sefydliadau sy'n gweithio ar draws cymunedau'r Awdurdod, pan fo un orsaf yn argymell archwiliad diogelwch ac un arall yn ymgysylltu yn fwy anffurfiol.


37 Mae dull sy'n canolbwyntio'n lleol hefyd yn golygu y bydd galwadau diangen yn amrywio o ran blaenoriaethu, er gwaethaf y ffaith eu bod yn cyfrif am y rhan fwyaf o ymatebion yr Awdurdod **(Arddangosyn 8)**. Mae'r risg hon yn cael ei lleihau gan y

gofyniad i gomanderiaid yr orsaf gofnodi gweithgarwch yn eu harchwiliad misol o'r orsaf, er pan gafodd ei gyflwyno yn ystod gwaith maes roedd yn amrywio o ran bod yn gynhwysfawr a manwl.

## Perfformiad cyfredol

38 Ers 2007-08, mae cyfanswm y galwadau diangen wedi gostwng 22% i gyfanswm o 8,028 yn 2021-22 **(Arddangosyn 7)**[21]. Mae hyn yn bennaf oherwydd cwymp sylweddol mewn galwadau maleisus (-72%) a galwadau oherwydd y cyfarpar (-17%). Fodd bynnag, ers 2018-19, mae nifer y galwadau diangen oherwydd y cyfarpar wedi dechrau cynyddu.

**Arddangosyn 7: galwadau diangen o bob math a adroddwyd gan ATADC, 2007-08 i 2021-22**





Ffynhonnell: StatsCymru

39 Yn 2021-22, roedd cyfanswm y galwadau diangen yr ymatebwyd iddynt 31% yn fwy na thanau gwirioneddol yr ymatebwyd iddynt (5,566), bellach dyma'r rheswm unigol mwyaf dros bresenoldeb criwiau mewn digwyddiad (**Arddangosyn 8)**. Mae hyn yn unol â'r duedd ers 2012-13, sy'n cael ei waethygu gan y gostyngiad yn y nifer o danau gwirioneddol a welodd ostyngiad o 60% rhwng 2004-05 a 2012-13, ond mae wedi bod yn gyson fwy neu lai ers hynny.

[21] Noder - mae hyn yn cynnwys galwadau diangen domestig ac annomestig yr ymatebwyd iddynt, oherwydd y ffordd y caiff data ei adrodd.

**Arddangosyn 8: tanau, digwyddiadau gwasanaethau arbennig, a galwadau diangen yr ymatebodd ATADC iddynt, 2004-05 i 2021-22**





Ffynhonnell: StatsCymru

40 Wrth egluro'r cynnydd diweddar, mae swyddogion wedi cyfeirio at y cynnydd yn nifer yr LTAau a osodwyd mewn adeiladau yn dilyn tân Tŵr Grenfell a newidiadau yn Safonau Prydeinig. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu asesu hyn, gan na chesglir data ar nifer yr LTAau a osodwyd nac ychwaith ar nifer y safleoedd sydd wedi'u cysylltu â phob Canolfan Derbyn Larymau (ARC). Mae hyn yn ei gwneud yn anodd meintioli’r esboniad hwn gyda thystiolaeth. Yn ogystal, wrth i systemau larwm fynd yn fwyfwy soffistigedig a chael eu normaleiddio, mae'r esboniad hwn yn cael ei wanhau fwyfwy.

41 Gan fod cyflwyno'r polisi pedwar cam yn gymharol ddiweddar, mae'n anodd dod i gasgliadau ystyrlon am ei effaith. Darparwyd data ar gyfer safleoedd yng nghamau dau i bedwar dros y cyfnod o dri mis, Medi i Dachwedd 2022 **(Arddangosyn 9)**. Er bod cyfanswm y safleoedd wedi gostwng, mae'n dangos y bu rhywfaint o ddwysáu yn y trydydd cam wrth i safleoedd ddisgyn allan o gam pedwar. Mae hon yn ymddangos yn duedd bositif; fodd bynnag, byddai angen cyfnod hirach o ddata er mwyn gwneud asesiad mwy diffiniol.

**Arddangosyn 9: nifer y safleoedd yng nghamau dau i bedwar, Medi i Dachwedd 2022**




Ffynhonnell: System TG BMIS ATADC

42 Y sector iechyd sydd wedi creu'r nifer fwyaf o alwadau diangen ers blynyddoedd lawer. Ym mis Tachwedd 2022, roedd pob safle cam pedwar yn gyfleusterau'r GIG. Adroddodd GIG Cymru am 793 UwFS o'r tair ardal bwrdd iechyd[22] dan ofal yr Awdurdod yn 2021, gostyngiad o 8% ers 2020. Ond roedd UwFS GIG De Cymru yn cyfrif am 57% o gyfanswm y GIG yn 2021, gan ddangos maint y broblem i'r Awdurdod.

43 Mae gan yr Awdurdod dîm penodol i reoli ymgysylltu ag iechyd i feithrin perthynas ac i fynd i'r afael â phroblemau, megis galwadau diangen, yn uniongyrchol. Yn ystod cyfweliadau, roedd swyddogion o'r farn mai cysylltiadau mwy adeiladol a chadarnhaol oedd yn gyfrifol am y gostyngiad diweddar, yn ogystal â'r defnydd o synwyryddion mwy soffistigedig mewn ysbytai. Yn yr un modd, fe wnaeth staff byrddau iechyd a gafodd eu cyfweld ddisgrifio perthnasoedd positif, adeiladol, yr oedden nhw'n teimlo oedd wedi eu cefnogi nhw i leihau'r nifer o alwadau diangen.

44 Mae gan ofal iechyd heriau penodol sy'n gallu sbarduno mwy o alwadau diangen, fel gweithdrefnau sy'n cynhyrchu chwistrelliadau ac ymddygiad heriol cleifion. Mae'r galwadau sylweddol ar staff y GIG hefyd yn arwain at alwadau diangen oherwydd bod mannau wedi'u haddasu ar gyfer seibiannau ond heb eu cynllunio ar gyfer coginio neu achosion o sylw yn cael ei dynnu gan arwain at losgi bwyd. Mae

[22] Mae'r rhain yn cynnwys Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg, a Chaerdydd a'r Fro. Nid yw'n cynnwys Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

hyn yn gwneud gallu'r Awdurdod i leihau galwadau diangen yn gyfan gwbl yn heriol iawn yn yr hinsawdd bresennol.

## Defnyddio data ac asesu risg

45 Mae data yn hanfodol ar gyfer llywio'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod, ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n llawn ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys amseriadau ymateb un peiriant, nad ydynt yn seiliedig ar risg neu ddata. Gall hyn wneud yr Awdurdod yn agored i fwy o risgiau anhysbys.

46 Yn ogystal, nid yw'r dull gweithredu yn adlewyrchu lefelau risg penodol i leoliadau. Ar hyn o bryd, mae dull cyffredinol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer bob safle annomestig gydag un peiriant yn ymateb i LTAau. Fodd bynnag, gan fod risg yn amrywio rhwng adeilad, cleient, a chymuned, gellid defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i addasu ymatebion. Gallai hyn arwain at atal ymatebion nes bod galwad yn cael ei gadarnhau neu weithredu PDA rheolaidd ar gyfer safleoedd â mwy o risg. Byddai hyn hefyd yn galluogi'r Awdurdod i ymateb i batrymau gwaith newydd wrth iddynt ddatblygu ar ôl y pandemig.

47 Un ffactor allweddol wrth osod polisi yw parodrwydd i dderbyn risg yr Awdurdod, ond nid yw'n glir a yw'r Awdurdod wedi gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch y lefel dderbyniol o risg yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o bob agwedd ar berfformiad. Nid yw ychwaith wedi cynnwys rhanddeiliaid wrth benderfynu hyn. Nid yw gwaith modelu gwahanol bolisïau ychwaith wedi'i gwblhau i asesu effeithiau gwahanol ddewisiadau polisi. Er ei fod yn heriol, byddai defnyddio data i ystyried dulliau eraill yn helpu i asesu manteision a risgiau posibl.

48 Er enghraifft, mae gwasanaethau ysbytai yn rhai 24:7 gyda nifer sylweddol o staff wedi'u lleoli ar draws adeiladau a fydd, pan fydd larwm yn cael ei sbarduno, yn cadarnhau os yw tân wedi digwydd. Yn 2021-22, digwyddodd 60% o alwadau diangen mewn gofal iechyd rhwng 8am a 6pm - oriau gwasanaeth craidd, pan fyddai nifer y staff ac ymwelwyr mewn safleoedd yn uchel.

49 O ganlyniad, gallai'r Awdurdod asesu'r polisi presennol o un peiriant yn bresennol yn erbyn polisi o ddiffyg presenoldeb nes bod galwad diangen yn cael ei chadarnhau oherwydd bod risg o dân yn cael ei gadarnhau yn isel. Byddai'r ddau yn arwain at oedi PDA llawn pe bai tân yn cael ei gadarnhau, gan na fyddai un peiriant yn ddigonol i fynd i'r afael â thân mewn amgylchedd cymhleth, fel ysbyty. Wrth benderfynu ar ddull gweithredu, dylid ystyried yn fanwl y ffactorau hyn, ochr yn ochr â safbwyntiau rhanddeiliaid.

50 Yn yr un modd, i dargedu ymyriadau, mae angen data cywir ac amserol i ddeall yr achosion a'r tueddiadau. Fodd bynnag, nid yw cyfran sylweddol o gofnodion galwadau yn cynnwys y rheswm dros eu hysgogiad. Er enghraifft, yn 2021-22, roedd 20.2% o alwadau diangen annomestig oherwydd y cyfarpar wedi'u cofnodi fel rhai ag achos 'anhysbys' yn BMIS. Mae hyn yn cyfyngu ar werth y data ac yn rhwystro gallu'r Awdurdod i ddefnyddio gwybodaeth amser real i helpu i wella perfformiad.

## Atal ymateb

51 Mae'r polisi LTA yn nodi bod hidlo galwadau 'yn ffactor pwysig o ran lleihau digwyddiadau UFS ac, o ganlyniad, hefyd risg ffyrdd a chymuned[23]'. Eto i gyd, bychan yw'r gyfran o alwadau diangen sy'n cael eu hatal rhag creu ymateb gan griw. Mae hyn yn cynnwys atal ymateb yn llwyr a galw peiriant yn ôl sydd eisoes ar y ffordd.

52 Mae data BMIS yn dangos bod yr Awdurdod wedi ymateb i 8,028 o alwadau diangen (domestig ac annomestig) yn 2021-22. O'r rhain, roedd 4,937 oherwydd y cyfarpar, sy'n ymwneud yn bennaf a LTAau[24]. Roedd hidlo galwadau yn atal 2,020 o ymatebion i LTAau yn 2021-22 - 29% o gyfanswm y galwadau diangen oherwydd y cyfarpar. Ar y cyfan, cafodd 19% o gyfanswm y galwadau diangen a dderbyniwyd gan yr Awdurdod eu galw'n ôl yn 2021-22.

53 Hyd at fis Tachwedd 2022, mae'r perfformiad yn 2022-23 wedi bod â chyfran debyg **(Arddangosyn 10)**. Mae hyn yn amlygu, er ei fod yn ffactor allweddol, nad yw hidlo galwadau yn arwain at ostyngiadau sylweddol mewn ymatebion. Gall hyn fod oherwydd y risg y gallai polisi o'r fath ei roi ar unigolion sy'n ymdrin â galwadau, sy'n gorfod cydbwyso bod yn heriol, cadw perthynas â Chanolfannau Derbyn Galwadau, a derbyn y risg y gallai digwyddiad fod wedi digwydd.

**Arddangosyn 10: nifer y galwadau diangen a dderbyniwyd a'r presenoldeb yn eu sgil, 2021-22 a 2022-23**

| | 2021-22 | | 2022-23[25] | |
|---|---|---|---|---|
| Presenoldeb oherwydd galwadau diangen | 8,367 | 80.6% | 5,887 | 79.3% |
| Dim presenoldeb | 1,214 | 11.7% | 906 | 12.2% |
| Adalw | 806 | 7.8% | 635 | 8.5% |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 10,387 | | 7,428 | |

Ffynhonnell: System TG BMIS, ATADC

54 Mae Canolfannau Derbyn Galwadau yn dueddol o ofyn am ymateb er mwyn trosglwyddo'r risg i'r ATA. Daw hyn yn dilyn digwyddiadau fel tân Pier Weston-Super-Mare, lle canfuwyd bod y Canolfannau yn esgeulus a chawsant eu dirwyo am beidio â rhybuddio'r gwasanaethau brys.

[23] SOP-6.18 ATADC Digwyddiadau larwm tân awtomatig

[24] Roedd data a ddarparwyd yn gysylltiedig â LTAau yn unig ac nid yw wedi'i rannu rhwng larymau domestig ac annomestig.

[25] Mae'r data ar gyfer 2022-23 ar gyfer cyfnod o wyth mis yn unig. Mae'r ffigurau'n cynnwys galwadau diangen gwasanaethau arbennig hefyd.

55 Dylai'r Awdurdod sicrhau bod eu polisi'n cael ei lywio a'i lunio gan realiti'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo. Os nad yw hidlo galwadau yn ffordd effeithiol o leihau presenoldeb, dylai'r polisi ganolbwyntio ar atebion mwy effeithiol i sicrhau capasiti sydd ei angen ar gyfer blaenoriaethau eraill.

## Rheoli a gwerthuso perfformiad

56 Er mai gwaith swyddogion yw datblygu polisi'r Awdurdod a rheoli ymatebion gweithredol, mae'n rhaid i'r aelodau graffu ar weithgarwch a bod yn fodlon bod yr Awdurdod yn rheoli risgiau posibl yn effeithiol ac yn sicrhau'r buddion posibl gorau.

57 Mae'r aelodau'n derbyn adroddiad perfformiad chwarterol gan gynnwys naratif byr o gamau gweithredu a phrif ddata o fewn Adroddiad Gweithredoedd y Cynllun Busnes. Mae data yn cynnwys y canlynol:

- cyfanswm y galwadau diangen yr ymatebwyd iddynt yn gyffredinol o'u cymharu â'r targed a llynedd;
- dadansoddiad o berfformiad fesul math o'i gymharu â'r llynedd; a
- dadansoddiad gan awdurdod lleol o gyfanswm y galwadau diangen a mathau o alwadau diangen fesul mis ac o'u cymharu â'r llynedd.

58 Canfuom nad yw'r ffordd y mae adrodd yn canolbwyntio ar hyn o bryd yn adlewyrchu polisi pedwar cam yr Awdurdod. Mae hyn yn golygu na all aelodau asesu perfformiad y dull gweithredu presennol. Yn hytrach, maent yn cael y prif ffigurau nad ydynt yn cynnig llawer o gipolwg ar y perfformiad, megis cyfanswm y galwadau diangen fesul awdurdod lleol. Nid yw hwn yn fesur ystyrlon ac mae'n cyfyngu ar fanteision posibl gwaith craffu gan aelodau. O ystyried bod gan yr Awdurdod gyfoeth o ddata a system wybodaeth reoli glir, threiddgar, mae cyfleoedd clir i gryfhau'r gwaith monitro a'r gwerthusiad presennol i sicrhau bod data'n cael ei ddefnyddio i asesu pa mor effeithiol y mae polisi'r Awdurdod yn cael ei gymhwyso.

59 Yn yr un modd nid yw targedau'n gyson. Gosodir targedau yn seiliedig ar flynyddoedd blaenorol, yn hytrach na bod yn nodau ar gyfer gwella, gydag amrywiannau lleol rhwng ardaloedd awdurdodau lleol heb eu llywio gan yr amgylchedd risg lleol. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar asesiad o'r cyfrif cyffredinol yn hytrach na gwerthuso a yw ymyrraeth yr Awdurdod o ran safleoedd ag amledd uwch o alwadau yn gweithio.

60 Byddai mwy o fewnwelediad yn cael ei ddarparu drwy gyflwyno targedau ystyrlon ar gyfer gorsafoedd lleol a'r Awdurdod yn gyffredinol. Ar y cyd â'r gwerthusiad o ddulliau eraill a chyfranogiad rhanddeiliaid wedi'i lywio gan ddata, byddai hyn yn golygu y gellid gwneud asesiad mwy gwybodus, sy'n ystyried cydbwysedd o fanteision a risg.

61 Dylai'r camau hyn hefyd arfogi aelodau'n well i ddwyn swyddogion i gyfrif am eu perfformiad ac i fod yn fwy gwybodus o ran gwahanol ddulliau, eu cryfderau, a'u risgiau. Ar hyn o bryd, mae trafodaethau am alwadau diangen yn ystod pwyllgorau yn gyfyngedig, heb fawr o sôn amdanynt mewn cofnodion. Bydd gwella adrodd ar

berfformiad yn cefnogi aelodau i ddwyn swyddogion i gyfrif ac asesu effeithiolrwydd y polisi.

## Adolygu a chryfhau perfformiad

62 Maes allweddol ar gyfer gwella yw cynnwys dysgu o leoedd eraill. Mae ymchwil y Swyddfa Gartref a phecyn gwybodaeth Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) uchod yn dangos yr ystod o ddulliau a pholisïau amgen sydd ar waith yn Lloegr. Gellir teilwra'r rhain er mwyn adlewyrchu amgylchiadau lleol a pharodrwydd derbyn risg pob Awdurdod.

63 Yn ystod cyfweliadau, mae swyddogion wedi esbonio bod eu pwyslais wedi bod yn fewnol, gan flaenoriaethu gweithredu'r polisi newydd a sicrhau cydymffurfiaeth. Er bod hyn yn hollbwysig, mae'n golygu nad yw'r Awdurdod yn manteisio ar y cyfle i feincnodi perfformiad a nodi dulliau eraill sy'n cefnogi gwella. Byddai hyn yn rhoi dadansoddiad mwy gwybodus, ehangach er mwyn i swyddogion ac aelodau asesu addasrwydd ac effeithiolrwydd eu polisi.

64 Gallai'r dull gweithredu hefyd gael ei gryfhau er enghraifft drwy wneud gwell defnydd o wybodaeth ar lefel yr orsaf a rhannu arferion da yn ehangach. Er enghraifft, pan fo gorsaf wedi cael llwyddiant wrth leihau achosion o alwadau diangen o adeilad swyddfeydd, gellid rhannu’r profiadau hyn er mwyn i eraill ddysgu ohonynt.

65 Y prif fforwm ar gyfer rhannu enghreifftiau yw'r rhwydwaith o hyrwyddwyr UwFS a ddewiswyd ym mhob gorsaf. Gall y diffoddwyr tân hyn ddod o hyd i ddulliau sydd wedi bod yn llwyddiannus a'u hyrwyddo ar gyfer gorsafoedd eraill. Gall hefyd alluogi trafodaeth rhwng cyfoedion i ystyried dulliau newydd, arloesol. Gall y rhwydwaith hefyd weithio i leihau'r posibilrwydd o gael dulliau amrywiol sylweddol, yn ogystal â swyddogaeth goruchwylio gweithgor yr UwFS ar gyfer safleoedd yng ngham tri neu uwch.

## Mwy o ymwneud a chyfathrebu â rhanddeiliaid

66 Mae deall disgwyliadau'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn hanfodol i sicrhau bod yr Awdurdod yn diwallu eu hanghenion. Mae cynnwys rhanddeiliaid wrth lunio cynlluniau hefyd yn ffordd hanfodol o weithio i ddangos ymrwymiad yr Awdurdod i Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth ddatblygu'r polisi presennol, nid yw'n glir a oedd rhanddeiliaid yn cymryd rhan weithredol wrth lunio'r polisi.

67 Yn ystod cyfweliadau, dywedodd yr aelodau a'r swyddogion bod y cyhoedd yn disgwyl ymateb gan yr Awdurdod pan fydd larwm yn cael ei ysgogi. Fodd bynnag, ac eithrio partneriaid y GIG, nid yw'r Awdurdod wedi cynnal unrhyw waith ymchwil diweddar nag ymgysylltu â phartneriaid er mwyn nodi cyfleoedd i ddiwygio'r polisi a lleihau'r galw ar ei wasanaethau. Gall cynnwys rhanddeiliaid arwain at gasgliadau hollol wahanol.

68 Er enghraifft, bu GTA yr Alban yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar dri opsiwn i newid eu polisi o ran galwadau diangen. Fe wnaethant ganfod bod 60% o'r ymatebwyr yn cytuno na ddylid anfon peiriant yn awtomatig yn sgil LTAau[26]. Dilynwyd hyn wedyn gan ddigwyddiad rhithwir i ddod â deiliaid dyletswydd adeiladu at ei gilydd i drafod y cynllun newydd a sut i leihau UwFS. O ganlyniad, maen nhw'n cyflwyno polisi diwygiedig ym mis Gorffennaf 2023. Canfu'r ymgynghoriad hefyd mai ychydig iawn o wybodaeth sydd gan ddeiliaid dyletswydd am eu cyfrifoldebau i leihau achosion o alwadau diangen. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cyfathrebu clir, perswadiol gyda rhanddeiliaid i ddylanwadu ar newid.

69 Mae ATADC yn darparu taflenni a phecynnau dogfennau i griwiau i'w dosbarthu mewn safleoedd pryd y maent yn bresennol yn sgil galwadau diangen. Mae'r pecynnau'n cynnwys llythyr yn esbonio effeithiau ysgogiadau LTAau diangen, gan gynnwys hunanfodlonrwydd, gwastraffu amser criw, a chost ariannol o £400 fesul ymateb.

70 Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon bob amser yn gyfoes ac mae ganddi rai bylchau allweddol. Mae'r pecyn yn cynnwys llyfryn ar gyfer Cymru gyfan ar leihau achosion o UwFS, a gafodd ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2016-17. Mae'r daflen UwFS a ddarperir i griwiau yn dyddio o 2012 ac yn cynnwys data sy'n cofnodi rhy ychydig o lawer o alwadau diangen, gan nodi bod tua 9,700 o alwadau diangen yn cael eu derbyn yn flynyddol, ond y cyfanswm ar gyfer 2021-22 oedd 15,230 – gwahaniaeth o 58%. Yn ogystal, nid yw'r cod QR a ddarparwyd i alluogi pobl i ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn gweithio. Gyda'i gilydd, mae'r materion hyn yn lleihau grym a pherswâd y daflen.

71 Hefyd, nid yw swyddogion yn mynd i ddigwyddiadau rhwydwaith rhanddeiliaid nac yn ymgysylltu â chyrff cynrychioliadol i hyrwyddo'r gwaith o leihau galwadau diangen. Dyma gyfle a gollwyd i godi proffil y gwaith o leihau galwadau diangen.

72 Er y gall yr Awdurdod ddangos ei fod yn gweithio'n agos gyda'r GIG i dargedu gostyngiadau, nid yw hyn wedi cael ei efelychu gyda sectorau eraill. Mae llawer o achosion galwadau diangen yn benodol i'r sector ac yn digwydd yn amlach mewn gwahanol leoliadau, megis gofal cymdeithasol neu weithgynhyrchu. Bydd mabwysiadu dulliau wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol sectorau yn helpu i godi proffil y gwaith o leihau ac yn galluogi cydweithio â rhwydweithiau'r sector a chyrff cynrychioliadol a allai gynnig manteision ychwanegol.

73 Yn yr un modd, mae llawer o'r sefydliadau a'r sectorau sy'n creu galwadau diangen yn Ne Cymru hefyd yn gweithredu mewn ardaloedd eraill o Gymru. Mae hyn yn cryfhau'r dylanwad posib a allai ddeillio o gydweithio agosach rhwng ATAau Cymru. Gall hyn hefyd greu manteision effeithlonrwydd ar gyfer cyfleusterau rheoli a rennir.

[26] GTA yr Alban, Canlyniadau ac adroddiad dadansoddi ymgynghoriad larwm tân awtomatig, Rhagfyr 2021

# Atodiad 1

## Dull gweithredu

Ein dull gweithredu oedd deall dull yr Awdurdod o ran lleihau achosion o alwadau tân diangen, gan ganolbwyntio'n benodol ar leoliadau annomestig. Ceisiodd yr adolygiad ateb y cwestiwn 'A yw'r Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i leihau'r achosion a'r ymatebion i alwadau tân annomestig diangen?' Roeddem yn canolbwyntio ar gamau gweithredu'r Awdurdod, nid y camau oedd ar gael i reolwyr adeiladau neu bobl gyfrifol.

Fe wnaethom gwblhau ein gwaith maes ar draws y tri Awdurdod Tân ac Achub ar wahân, gan ddefnyddio'r un tîm ar draws y tri. Roedd hyn yn ein galluogi i gael mewnwelediadau i bob Awdurdod, yn ogystal â llywio allbwn cenedlaethol sydd ar ddod.

Roeddem wedi ceisio bod yn hyblyg i gyd-fynd â gwaith swyddogion wrth drefnu a chyflawni ein gwaith maes, gan sicrhau nad oedd ein gwaith yn amharu ar waith gweithredol yr Awdurdod.

## Dulliau

Cafodd ein hadolygiad ei gwblhau rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023. Fe ddefnyddiom ni ystod o ddulliau i ddod i gasgliadau ar gyfer ein hadolygiad:

- adolygu dogfennau – gwnaethom adolygu polisïau a dogfennau a ddarparwyd gan yr Awdurdod, yn ogystal ag adolygu eu gwybodaeth gyhoeddedig, megis eu gwefan. Yn ogystal, fe wnaethom hefyd adolygu dogfennaeth gan Lywodraeth Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), a grwpiau cynrychioliadol.
- dadansoddi data – gwnaethom ddadansoddi ddata a ddarparwyd gan yr Awdurdod a data sydd ar gael i'r cyhoedd. Roedd hyn yn cynnwys data rheoli, data System Cofnodi Digwyddiadau (IRS), a data arall oedd ar gael o StatsCymru.
- cyfweliadau lleol - fe wnaethom gyfweld â swyddogion a enwebwyd gan yr Awdurdod a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o wahanol feysydd, yn gorfforaethol ac yn lleol. Roedd hyn yn cynnwys y prif swyddog ar gyfer galwadau diangen, swyddogion Diogelwch Tân i Fusnesau, ac uwch swyddogion.
- cyfweliadau cenedlaethol – gwnaethom gyfweld â chynrychiolwyr o fyrddau iechyd lleol, y PCGC, a Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC).
- arolwg – fe wnaethom gynllunio arolwg ar gyfer rheolwyr adeiladu a phobl gyfrifol i fesur eu barn am alwadau diangen a'r Awdurdod. Fe wnaethom ni annog yr Awdurdod i anfon hwn at sefydliadau yn eu hardal, yn ogystal â'i hyrwyddo drwy rwydweithiau proffesiynol, fel grŵp Rheolwyr Ystad y GIG. Yn anffodus, ni chafwyd ymatebion digonol i ddefnyddio'r dystiolaeth hon i ddod i gasgliadau.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.